Taflen Ffeithiau

Defnyddio Sgiliau

Mae'r Cardiau Gweithgareddau Aml Sgiliau yn rhoi **cyfleoedd** i'r plant **ddatblygu** a **defnyddio** eu sgiliau mewn **amrywiaeth** o sefyllfaoedd.

Mae'r gweithgareddau'n datblygu ystod o **gysyniadau** a **sgiliau** y gellir eu **defnyddio** a'u **trosglwyddo** i ystod o weithgareddau **sy'n benodol i gampau**, er enghraifft, cydsymud rhwng y dwylo a'r llygaid; ymwybyddiaeth ofodol; golwg perifferol; cydbwysedd; rheolaeth; ystwythder; cywirdeb; effeithiolrwydd; ymosod; amddiffyn; meddiant; sgorio goliau/pwyntiau; strategaethau; tactegau; stamina; cryfder; rhwyddineb; rhythm; meddwl; cyfathrebu; gweithio gydag eraill; gwella eu dysgu eu hunain; cofnodi; amseru; mesur; amcangyfrif ac ati.

Gall pob gweithgaredd **ddatblygu** mwy nag un o'r agweddau hyn gyda'i gilydd.

Gweler y Daflen Ffeithiau **'Pa Sgiliau… Pa Weithgareddau?'** i **weld** pa **sgiliau** sy'n ymddangos ym mhob **cerdyn gweithgareddau**.

Gellir **addasu** pob gweithgaredd i ganolbwyntio ar **sgìl, cysyniad, agwedd** neu **ganlyniad** penodol.

Ni fwriedir i'r Cardiau Gweithgareddau ddweud wrthych beth yn union y dylech ei wneud, ac ni fwriedir iddynt fod yn adnoddau y gallwch afael ynddynt a'u defnyddio'n syth. Bwriedir iddynt fod yn gardiau **'cysyniadau'** a fydd, gobeithio, yn eich **ysbrydoli** chi a'ch cyfranogwyr yn ystod cyfres o sesiynau. Bydd addasu gweithgareddau **yn ddychmygus** i **ddiwallu anghenion**, diddordebau a galluoedd y plant yr ydych yn gofalu amdanynt yn fodd i hybu eu **lefelau cymhelliant**, eu **mwynhad** a'u **cyfranogiad** a gwella **perfformiad**. Gellir gwneud y gweithgareddau'n **symlach**, yn fwy **cymhleth** neu'n **wahanol**, yn dibynnu ar yr angen.

Taflen Ffeithiau

Defnyddio Sgiliau

Y nod yn y pen draw yw i'r plant **gymryd cyfrifoldeb cynyddol** am **drefnu** a **datblygu eu syniadau eu hunain**, ond bydd **angen cymorth** arnynt i wneud hynny. Fel darparwr, gallech ddechrau drwy gymryd camau i osod ac esbonio gweithgaredd i'r plant, ac yna gweithio gyda nhw i addasu a datblygu'r gweithgaredd gan annog cymaint o greadigrwydd ag sy'n bosibl a chanolbwyntio ar ddatblygu sgîl. Gallai hynny ymwneud â mwy na lefelau eu sgiliau corfforol yn unig; gallai olygu eu bod yn datblygu sgiliau ehangach. Gweler y **Daflen Ffeithiau 'Datblygu'r Plentyn Cyfan'**. Mae pob sgîl yn bwysig i **ddatblygiad cyffredinol** plentyn a'r modd y bydd yn meithrin ffordd **iach** a **gweithgar** o fyw **yn y dyfodol**. Gellir datblygu'r holl sgiliau hyn drwy'r gweithgareddau, a thros gyfnod bydd angen i chi sicrhau eich bod yn darparu cyfleoedd i hynny ddigwydd.

Wrth i'r plant gymryd cyfrifoldeb cynyddol, gallant osod gweithgareddau ar eu cyfer eu hunain, rheoli'r gweithgareddau hynny drwy fabwysiadu **rolau** megis rôl **dyfarnwr, hyfforddwr, sgoriwr** ac ati, a'u haddasu i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Bydd y gweithgareddau'n dod yn rhai **a gaiff eu sbarduno gan blant a'u hybu gan oedolion**. Bydd hynny'n arwain at lefelau uwch o gymhelliant a mwynhad yn ogystal â lefelau gwell o ran sgiliau.

Efallai y bydd y plant yn **dyfeisio** eu gweithgareddau eu hunain i'w chwarae, y gallant eu **cyflwyno/ dysgu i grŵp arall** ac ati. Unwaith eto, mae hynny'n datblygu eu **dealltwriaeth** a'u **hymwybyddiaeth** o gysyniadau a sgiliau.

sportwales chwaraeoncymru

Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government

LOTTERY FUNDED ARIENNIR GAN Y LOTERI

© Hawlfraint (Cyngor Chwaraeon Cymru) 2012. Cedwir pob hawl.